

y Gaer Interpretation Project for Powys CC	
English to Welsh translation request No 11	
English	Cymraeg
Int 164	DL 8 / 9
<p>Portrait of Petra Gill David Jones, pencil and watercolour heightened with gouache on paper</p>	<p>Portread o Petra Gill David Jones, pensil a dyfrlliw wedi'i ddwysáu â gouache ar bapur</p>
<p>This portrait of Petra Gill is set at Capel-y-ffin in the Black Mountains where the Gill family lived from 1924 to 1928. The contours of the hill and river behind her echo those on her face. She looks severe, and during this year (1927) she ended her engagement to David Jones (1895-1974). (52)</p>	<p>Mae'r portread hwn o Petra Gill wedi ei osod yng Nghapel-y-ffin yn y Mynyddoedd Duon lle'r oedd y teulu Gill yn byw o 1924 hyd 1928. Mae cyfuchliniau'r bryn a'r afon y tu ôl iddi yn efelychu'r rhai ar ei hwyneb. Mae hi'n edrych yn ddifrifol, ac yn ystod y flwyddyn hon (1927), diddymodd ei dyweddïad â David Jones (1895-1974). (52)</p>
Int 165	DL 8 / 9
<p>Petra before Christ David Jones, gouache on paper</p>	<p>Petra gerbron Crist David Jones, gouache ar bapur</p>
<p>Petra was the daughter of the sculptor and engraver Eric Gill, here kneeling before the risen Christ at the entrance to a garden. David Jones (1895-1974) became a Roman Catholic before becoming engaged to the seventeen-year-old Petra. Over the next few years he painted her constantly – this painting dates from 1925.(51)</p>	<p>Merch i'r cerflunydd a'r ysgythrwr, Eric Gill, oedd Petra. Yma, mae hi'n penlinio gerbron y Crist atgyfodedig ger mynedfa i ardd. Daeth David Jones (1895-1974) yn Babydd cyn dyweddïo â Petra a oedd yn ddwy ar bymtheg oed. Fe'i paentiodd hi'n gyson yn ystod y blynyddoedd nesaf – dyddiad y paentiad hwn yw 1925.(51)</p>
Int 166	DL13 DL 8 / 9
<p>Miners, Ystradgynlais Josef Herman, watercolour</p>	<p>Glowyr, Ystradgynlais Josef Herman, dyfrlliw</p>
<p>Josef Herman, a Polish refugee, found inspiration in the small mining town of Ystradgynlais. In this picture dated around 1950, he uses quick, bold watercolour strokes to paint miners with blackened faces, their shifts over, helmets still on, lamps in hand. Behind them, the slag heap</p>	<p>Canfu Josef Herman, ffoadur o Wlad Pwyl, ysbrydoliaeth yn nhref lofaol fechan Ystradgynlais. Yn y llun hwn sy'n dyddio o oddeutu 1950, mae'n defnyddio trawiadau dyfrlliw cyflym a beiddgar i beintio glowyr ag wynebau wedi eu duo, mae eu sifftiau wedi gorffen, eu helmedau ar eu pennau o hyd, a'u lampau yn eu dwylo. Y tu ôl iddynt, ceir</p>

that they have created rises like a great pyramid. (55)	tomen sorod y maent wedi ei chreu, sy'n codi fel pyramid mawr. (55)
Int 167	DL 8 / 9
Welsh village Martin Bloch, oil on canvas	Pentref Cymreig Martin Bloch, olew ar gynfas
Martin Bloch (1883-1954) fled from Silesia, now Poland, and subsequently taught and exhibited across Europe and America. He frequently visited Wales in the late 1940s and early 1950s, painting with Joseph Herman, and this view, dated 1953, is of Pont ar Ystrad in Ystradgynlais where Herman lived. Bloch's expressionist style influenced several Welsh painters.(54)	Ffodd Martin Bloch (1883-1954) o Silesia, Gwlad Pwyl erbyn hyn. Yn dilyn hynny, fe ddysgodd ac arddangosodd ei waith ledled Ewrop ac America. Ymwelai â Chymru yn aml tua diwedd y 1940au a dechrau'r 1950au, gan baentio gyda Joseph Herman, ac mae'r olygfa hon, sy'n dyddio o 1953, yn dangos Pont ar Ystrad yn Ystradgynlais lle'r oedd Herman yn byw. Dylanwadodd arddull fynegiadol Bloch ar sawl arlunydd o Gymru.(54)
Int168	
Llanthony Abbey John Piper, ink, gouache and wash	Abaty Llanddewi Nant Hodni John Piper, inc, gouache a golch
John Piper (1903-1992) was working part-time for the War Artists Advisory Committee when he painted this work in 1941. He had recently completed a series of studies of blitzed churches in Coventry, London and Bristol. Here his subject is a much older ruin, the former Augustinian Priory of Llanthony in the Black Mountains.(53)	Roedd John Piper (1903-1992) yn gweithio rhan-amser i Bwyllgor Ymgyngori Arlunwyr Rhyfel pan baentiodd y gwaith hwn ym 1941. Roedd newydd gwblhau cyfres o astudiaethau ar eglwysi a chwalwyd yn ystod y Blitz yn Coventry, Llundain a Bryste. Yma, adfail llawer hŷn yw ei bwnc, sef hen Briordy Awstinaidd Llanddewi Nant Hodni yn y Mynyddoedd Duon.(53)
Int 169	DL 8 / 9 DL13
Miner with dog Josef Herman, oil	Glöwr a'i gi Josef Herman, olew
Josef Herman saw in the miners of Ystradgynlais the pride of human labour. Here the miner, thickset, is walking his dog after the shift in the mine is over. Painted in 1968 after Herman had left Ystradgynlais, it uses the strong, warm glowing colours that he had developed in his earlier mining pictures.(54)	Gwelai Josef Herman falchder llafur dynol yng nglowyr Ystradgynlais. Yma, mae'r glöwr byrdew yn mynd â'i gi am dro ar ôl i'r sifft yn y pwll glo ddod i ben. Wedi ei baentio ym 1968 ar ôl i Herman adael Ystradgynlais, mae'n defnyddio'r lliwiau cryfion, cynnes a gwresog a ddatblygodd yn ei luniau mwyngloddio cynharach.(54)

Int170		DL23	
Thistledown Sheep Sally Matthews, metal and thistledown		Defaid Plu Ysgall Sally Matthews, metel a phlu ysgall	
This sculpture of a ram was commissioned by the Brecknock Art Trust in the aftermath of the 2001 Foot and Mouth epidemic. Dominated by sheep farming, the Brecon Beacons area was particularly hard hit. Thistledown mimics sheeps wool in colour and texture. Welsh artist Sally Matthews is known for her representations of animals.(53)		Comisiynwyd y cerflun hwn o hwrdd gan Ymddiriedolaeth Gelf Frycheiniog yn sgil epidemig Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001. Oherwydd bod Bannau Brycheiniog wedi ei dominyddu gan ffermio defaid, fe'i trawyd ardal yn galed iawn. Mae plu ysgall yn dynwared gwlân defaid o ran lliw a gwriad. Mae'r arlunydd o Gymru, Sally Matthews, yn enwog am ei chynrychiolaethau o anifeiliaid.(53)	
Int 171		DL4	
Llwy garu/Love spoon Ann Catrin Evans, wrought iron		Llwy garu Ann Catrin Evans, haearn gyr	
Ann Catrin Evans creates contemporary love spoons, not from wood but from hot forged steel. She calls these love tokens. This spoon suggests the difficulty of holding onto love as it drains away in the sieve-like bowl. These were acquired by the museum in 2003 to complement the collection of traditional wooden love spoons.(54)		Mae Ann Catrin Evans yn creu llwyau caru cyfoes, nid o bren ond o ddur morthwylidig poeth. Mae hi'n eu galw nhw'n docynnau caru. Mae'r llwy hon yn awgrymu anhawster cynnal cariad wrth iddo ddisgyn yn y bowlen sy'n debyg i hidlydd. Caffaelwyd y rhain gan yr amgueddfa yn 2003 i ategu'r casgliad o lwyau caru traddodiadol o bren.(54)	
Int 172		DL4	
Ysgol dau/Ladder for two Ann Catrin Evans, wrought iron		Ysgol dau Ann Catrin Evans, haearn gyr	
Ann Catrin Evans creates contemporary love spoons, not from wood but from hot forged steel. She calls these love tokens. She says this piece, acquired in 2003, is 'like two people facing each other, lovingly holding around each other with outstretched arms and legs. It is also a symbol of climbing great heights together'. (54)		Mae Ann Catrin Evans yn creu llwyau caru cyfoes, nid o bren ond o ddur morthwylidig poeth. Mae hi'n eu galw nhw'n docynnau caru. Mae hi'n dweud bod y darn hwn, a gaffaelwyd yn 2003, 'fel dau berson yn wynebu ei gilydd, sy'n dal ei gilydd yn gariadus gyda'u breichiau a'u coesau wedi eu hymestyn. Mae hefyd yn symbol o ddringo uchelfannau mawr ar y cyd'. (54)	

Int 173

DL4

Amser caru/ Love time Ann Catrin Evans, wrought iron	Amser caru Ann Catrin Evans, haearn gyr
Ann Catrin Evans creates contemporary love spoons , not from wood but from hot forged steel. She calls these love tokens. She writes of this piece, acquired in 2003: 'two hearts together hanging each from a ring similar to the minute and hour hands of a clock are an idyllic expression of romance'.(53)	Mae Ann Catrin Evans yn creu llwyau caru cyfoes, nid o bren ond o ddur morthwylidig poeth. Mae hi'n eu galw nhw'n docynnau caru. Mae hi'n ysgrifennu am y darn hwn a gaffaelwyd yn 2003: 'mae dwy galon ynghyd ill dau yn hongian oddi ar fodrwy sy'n debyg i fysedd awr a munud cloc, yn fynegiant delfrydol o ramant'.(53)
Submitted by: WG	Date: 29/08/2019
Completed by:	Date: .././2019